04846 - Llantwit Major Consult W:Layout 1 06/12/2013 14:34 Page 1






# Ymgynghoriad

## ar y cynnig i greu Ysgol Gynradd 420 lle newydd

### yn rhan o Gymuned Ddysgu Llanilltud trwy uno Ysgolion Eagleswell a Llanilltud Fawr

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Ymgynghoriad yng Nghyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU

www.bromorgannwg.gov.uk

04846 - Llantwit Major Consult W:Layout 1 06/12/2013 14:34 Page 2



# Cynigion am ysgol gynradd ar gyfer 420 o ddisgyblion

## 1.0 Beth yw diben yr ymgynghoriad hwn?

Mae'n rhaid i'r cyngor adolygu'r nifer a'r mathau o ysgolion yn yr ardal a gwneud y defnydd gorau o adnoddau i godi safonau mewn ysgolion.

Mae rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru yn rhaglen buddsoddiad cyfalaf mawr, hirdymor a strategol i greu;

- Amgylcheddau dysgu i blant a phobl ifanc 3-19 oed a fydd yn galluogi gweithrediad llwyddiannus strategaethau ar gyfer gwella ysgolion a chanlyniadau addysgol gwell;
- System addysg gynaliadwy trwy ddefnydd gwell o adnoddau i wella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd; a
- Safon Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i bob ysgol sydd hefyd yn lleihau costau rheolaidd, defnydd o ynni ac allyriadau carbon.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio cynnig y Cyngor i greu ysgol gynradd 420 lle newydd yn rhan o Gymuned Ddysgu Llanilltud trwy uno ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr. Byddai Cymuned Ddysgu Llanilltud yn diwallu anghenion y rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i alluogi'r ysgolion a'r gymuned i elwa o amrywiaeth eang o gyfleusterau newydd.

Mae ein proses ymgynghori yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Mae'n gyfle i ddarganfod mwy am y cynnig ac i'r Cyngor glywed safbwyntiau pawb sydd â buddiant fel y gallant gael eu cymryd i ystyriaeth cyn gwneud penderfyniadau.

## 1.1 Y broses ymgynghori

Mae'n rhaid i'r Cyngor ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion pan fyddant ar gam anffurfiol a chyn i gynigion ffurfiol gael eu cyhoeddi. Gofynnir i amrywiaeth o unigolion a grwpiau am eu safbwyntiau ar y cynnig gan gynnwys:

| | |
|---|---|
| Aelodau staff (addysgu ac nad ydynt yn addysgu) yn ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr | Governors and Parents / Carers of children at Eagleswell and Llanilltud Fawr Primary schools |
| Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Phartneriaeth Dysgu a Sgiliau Bro Morgannwg | Partneriaeth Datblygiad y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Bro Morgannwg (PDBCGP) |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Cynghorwyr Cymuned/Cyngor Tref Llanilltud Fawr |
| Cynghorwyr Lleol | Aelod Cynulliad (AC) / Aelod Seneddol (AS) / Aelod Cynulliad Rhanbarthol |
| Comisiynydd y Gymraeg | RHAG |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) |

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr (ATL) | Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) | Cymdeithas Broffesiynol yr Athrawon (PAT) |
| UNISON | Undeb GMB |
| Ysgolion Cynradd ac Uwchradd cyfagos ym Mro Morgannwg | Undeb y Gweithwyr Cludiant a Chyffredinol (T&G) |
| ERW – Addysg trwy Weithio Rhanbarthol | Cyfarwyddwr Addysg – Pob Awdurdod Cyfagos |
| Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol | Bwrdd Gwasanaethau Lleol |
| Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Lleol | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd |
| Estyn | Gweinidogion Cymru |
| Gwasanaeth Gwella Disgyblion/ADY ALI | Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol |

## 1.2 Ymgynghori â disgyblion

Bydd cyfle i ddisgyblion ysgolion Eagleswell a Llanilltud Fawr gymryd rhan yn y broses ymgynghori trwy eu cynghorau ysgol yn ystod sesiwn ymgynghori yn yr ysgolion. Bydd y wybodaeth a gesglir o'r ymgynghoriad â'r disgyblion yn rhan o'r adroddiad ymgynghori, a fydd yn cael ei gyflwyno i Gabinet y Cyngor ei ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

## 1.3 Sut allwch chi ddarganfod mwy a mynegi eich safbwyntiau?

Yn ogystal â'r ddogfen ymgynghori hon, mae sesiynau galw heibio wedi eu trefnu lle bydd y cynnig yn cael ei esbonio. Darperir y rhain fel y gallwch ofyn cwestiynau a gwneud sylwadau a gaiff eu cofnodi. Gallwch gynnig eich safbwyntiau yn ysgrifenedig hefyd.

Rhoddir manylion y cyfarfodydd ymgynghori isod:

| Natur yr ymgynghoriad | Dyddiad/Amser | Lleoliad |
|---|---|---|
| Cyfarfod staff | 14 Ionawr 3.30 - 4.15 | Ysgol Gynradd Eagleswell |
| Cyfarfod y Corff Llywodraethu | 14 Ionawr 4.15 | Ysgol Gynradd Eagleswell |
| Sesiwn galw heibio | 3 Chwefror 3.15 - 6.00 | Ysgol Gynradd Eagleswell |
| Cyfarfod staff | 24 Ionawr 3.30 - 4.15 | Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr |
| Cyfarfod y Corff Llywodraethu | 24 Ionawr 4.15 | Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr |
| Sesiwn galw heibio | 4 Chwefror 3.15 - 6.00 | Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr |

04846 - Llantwit Major Consult W:Layout 1 06/12/2013 14:34 Page 4





## 1.4 Y cyfnod ymgynghori

Fe'i cynhelir rhwng 16 Rhagfyr 2013 a 10 Chwefror 2014. Mae eich safbwyntiau yn bwysig i ni, rhowch eich safbwyntiau ar y cynnig i ni trwy:

- Gwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad amgaeedig i'r cyfeiriad a roddir ar waelod y ffurflen
- E-bostio eich safbwyntiau i Llantwitlearningcommunity@valeofglamorgan.gov.uk
- Cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein yn www.valeofglamorgan.gov.uk/llantwitlearningcommunity

Fel arall, gallwch fynegi eich safbwyntiau yn ysgrifenedig i:

Ehangu darpariaeth Cyfrwng Cymraeg Y Barri
Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chorfforaethol
Cyngor Bro Morgannwg,
RHADBOST SWC2936
Y Barri CF63 4GZ

Mae modd i chi gyflwyno safbwyntiau o blaid neu yn erbyn y cynnig. Gan mai ymgynghoriad anffurfiol yw hwn, ni fydd yr ymatebion a wneir yn cael eu trin fel gwrthwynebiadau statudol. Os hoffech wrthwynebu, bydd angen i chi wneud hynny yn ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol a amlinellir ym mhwynt adran 3 y ddogfen hon, Amserlen y Broses Statudol.

**Sylwer bod yn rhaid i'r holl sylwadau a anfonir yn ysgrifenedig neu mewn neges e-bost gynnwys eich enw llawn a'ch cyfeiriad post llawn.**

**Y dyddiad cau er mwyn cyflwyno ymatebion yw 10 Chwefror 2014. Ni fydd modd i'r Cyngor ystyried unrhyw ymatebion a wneir ar ôl y dyddiad hwn.**

## 2.0 Beth yw'r cynnig

Mae'r Cyngor yn cynnig sefydlu Cymuned Ddysgu Llanilltud i weddnewid cyfleoedd addysgol yn Llanilltud Fawr. Bydd Cymuned Ddysgu Llanilltud wedi ei lleoli ar safleoedd presennol Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr, Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr ac Ysgol Gymraeg Dewi Sant. Bydd Cymuned Ddysgu Llanilltud yn cynnwys Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr wedi ei hailfodelu, ysgol gynradd 420 lle newydd wedi ei ffurfio trwy uno ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr ac ehangu Ysgol Dewi Sant i ysgol 210 lle. Byddai'r tair ysgol wedi eu cyd-leoli ar yr un safle ond yn cadw eu hunaniaeth ar wahân ac yn elwa o gyfleusterau a rennir.

Mae'r ddogfen hon yn nodi manylion y cynnig i uno ysgolion cynradd Llanilltud Fawr ac Eagleswell yn un ysgol 420 lle â dosbarth meithrin. Yn amodol ar gymeradwyaeth, gallai'r ddwy ysgol droi'n un ysgol ym mis Medi 2015. Byddai'r ysgol unedig newydd yn gweithredu ar ddau safle ar wahân i gychwyn, dan un corff llywodraethu a Phennaeth, tan 2017. Byddai adeilad ysgol 420 lle newydd yn cael ei ddarparu yn 2017.

04846 - Llantwit Major Consult W:Layout 1 06/12/2013 14:34 Page 5



Oherwydd gofynion cyfreithiol Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, sy'n llywodraethu'r cynnig hwn, mae'n rhaid i'r Cyngor gau ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr ac agor ysgol 420 lle newydd i gwblhau uniad y ddwy ysgol. Ni fydd unrhyw fwlch yn addysg y plant oherwydd y broses gyfreithiol hon.

Bydd manylion sut y bydd yr ysgol unedig yn gweithredu ar ddau safle, ei pholisïau a'i gweithdrefnau cyffredin a'i strwythurau staffio yn cael eu datblygu gan y corff llywodraethu dros dro a'r Pennaeth a fyddai'n cael ei benodi cyn yr uno.

Bydd cyllid i adeiladu ysgol 420 lle newydd ond ar gael os gwerthir safle presennol Ysgol Gynradd Eagleswell. Byddai'n rhaid gwerthu safle'r ysgol cyn adeiladu'r ysgol newydd ond ni fydd y Cyngor yn trosglwyddo safle Ysgol Gynradd Eagleswell tan ar ôl i'r ysgol newydd gael ei hadeiladu er mwyn sicrhau nad oes rhaid i'r plant symud i ystafelloedd dosbarth dros dro.

Nid yw gwerthu'r safle a darparu'r adeilad ysgol newydd yn rhan o'r broses ymgynghori addysgol statudol hon ac ymgynghorir ar y materion hyn drwy'r system gynllunio. Oherwydd yr amserlenni ar gyfer gwerthu'r tir ac adeiladu ysgol newydd, gallai fod yn 2017 cyn y bydd yr adeilad ysgol newydd yn agor.

## 2.1 Cefndir

Amcanion Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru a nodwyd yn flaenorol yw:

- Amgylcheddau dysgu i blant a phobl ifanc 3-19 oed yng Nghymru a fydd yn galluogi gweithrediad llwyddiannus strategaethau ar gyfer gwella ysgolion a chanlyniadau addysgol gwell;
- System addysg gynaliadwy trwy ddefnydd gwell o adnoddau i wella effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd yr ystâd addysg sy'n gwella'r ddarpariaeth o wasanaethau cyhoeddus lleol; a
- Safon Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i bob ysgol yng Nghymru sydd hefyd yn lleihau costau rheolaidd, defnydd o ynni ac allyriadau carbon.

Gan ymateb i'r fenter Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, cyflwynodd y Cyngor Raglen Amlinellu Strategol Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2010 ar gyfer cyllid tuag at Gymuned Ddysgu Llanilltud, sy'n cynnwys Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr 1,050 lle newydd, ysgol cyfrwng Saesneg 420 lle newydd wedi ei ffurfio trwy uno ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr ac ysgol cyfrwng Cymraeg 210 lle i ehangu Ysgol Gymraeg Dewi Sant.

Yn 2011, roedd yn ofynnol i holl Gynghorau Cymru gyflwyno rhaglenni diwygiedig oherwydd y lefelau is o gyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Roedd rhaglen ddiwygiedig y Cyngor yn cynnwys ailwampio ac ailfodelu'r ysgol gyfun ac ehangu Ysgol Gymraeg Dewi Sant i 210 o leoedd. Ar yr adeg honno, nid oedd yn bosibl cynnwys ysgol

04846 - Llantwit Major Consult W:Layout 1 06/12/2013 14:34 Page 6





gynradd unedig newydd Eagleswell a Llanilltud Fawr yn y rhaglen ddiwygiedig.

Oherwydd cyflwr adeiladau ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr, ac yn enwedig adeilad Llanilltud Fawr, y bydd angen ei ddisodli, mae gwaith dichonoldeb ar Gymuned Ddysgu Llanilltud gan gynnwys yr ysgol unedig, wedi parhau.

## 2.2 Lleoedd ysgol a data demograffig

Gwasanaethir Llanilltud Fawr a'r cyffiniau gan dair ysgol gynradd cyfrwng Saesneg. Ceir 379 lle yn Ysgol Gynradd Sant Illtud ac mae wedi ei lleoli ger canol Llanilltud Fawr. Mae Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr, sydd â 210 lle, wedi ei lleoli nesaf at yr ysgol gyfun ar Ham Lane East. Mae Ysgol Gynradd Eagleswell, sy'n ysgol 210 lle, wedi ei lleoli yng nghanol ystâd dai i'r gogledd o Lanilltud Fawr. Gwasanaethir yr ardal hefyd gan ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, Ysgol Gymraeg Dewi Sant, sydd wedi ei lleoli nesaf at yr ysgol gyfun ar Ham Lane East ac mae 90 o leoedd ar gael ar hyn o bryd. Ceir cyfanswm o 889 o leoedd ysgol gynradd ar gael yn yr ardal i blant sy'n byw yn Llanilltud Fawr a'r cyffiniau.

Mae 716 o blant oed cynradd yn byw yn Llanilltud Fawr. Mae 569 o blant (79%) yn mynychu ysgolion yn yr ardal a 147 (21%) o blant yn mynychu ysgolion y tu allan i'r ardal yn y Barri, y Bont-faen, Penarth, Sain Tathan a'r Wig. Bydd plant sy'n byw yn Llanilltud Fawr sy'n dymuno cael addysg enwadol yn mynychu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes neu Ysgol Gatholig Sain Helen yn y Barri.

Mae llawer iawn o symudiad disgyblion rhwng dalgylchoedd yr ysgolion cynradd yn amlwg yn ardal Llanilltud Fawr. Cyfran fach o blant sy'n byw yn nalgylchoedd Eagleswell a Llanilltud Fawr sy'n mynychu eu hysgol leol, dim ond 89 (33%) o blant o 268 sy'n byw yn nalgylch Eagleswell sy'n mynychu Ysgol Gynradd Eagleswell ac 85 (50%) o 171 o blant sy'n byw yn nalgylch Llanilltud Fawr sy'n mynychu Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr. Mae data disgyblion yn dangos symudiad rhwng y ddau ddalgylch hefyd, ac mae 45 o blant yn mynychu Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr o ddalgylch Eagleswell ac 8 yn mynychu Ysgol Gynradd Eagleswell o ddalgylch Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr. Mae'r tabl isod yn dangos yr ysgolion a fynychir gan ddisgyblion oedran cynradd sy'n byw yn nalgylchoedd ysgolion yn Llanilltud Fawr a'r cyffiniau.








04846 - Llantwit Major Consult W:Layout 1 06/12/2013 14:34 Page 7



| Ysgolion a fynychir gan blant sy'n byw yn y dalgylchoedd | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dalgylch | Poblogaeth y dalgylch | Eagleswell | Llanilltud Fawr | Santt Illtud | Sain Tathan | Y Wig | Ysgol Gymraeg Dewi Sant | Ysgolion eraill y Fro |
| Ysgol Gynradd Eagleswell | 268 | 89 | 45 | 89 | 0 | 8 | 4 | 33 |
| Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr | 171 | 8 | 85 | 44 | 3 | 4 | 4 | 23 |
| Ysgol Gynradd Sant Illtud | 277 | 35 | 48 | 113 | 7 | 29 | 5 | 40 |
| Sain Tathan | 408 | 26 | 15 | 69 | 143 | 25 | 1 | 129 |
| Y Wig | 64 | 1 | 0 | 4 | 0 | 38 | 1 | 20 |

Nid yw Ysgol Gymraeg Dewi Sant wedi ei chynnwys yn y tabl uchod. Dalgylchoedd yr holl ysgolion uchod yw dalgylch yr ysgol a dyma'r unig ysgol cyfrwng Cymraeg yn y clwstwr.

## 2.3 Gwella adeiladau a chyfleusterau ysgolion

Mae safle ysgol, ei adeiladau a'i dir, yn darparu'r seilwaith sy'n cefnogi dysgu a datblygiad. Ceir tystiolaeth eglur y gall elfennau ffisegol yn amgylchedd yr ysgol gael effeithiau pendant ar athrawon a dysgwyr. Dylai adeilad ysgol ysbrydoli dysgu. Gall amgylchedd dysgu anaddas gael effeithiau andwyol ar allu canolbwyntio, hwyliau, lles, presenoldeb ac, yn y pen draw, cyrhaeddiad.

### 2.3.1 Ysgol Gynradd Eagleswell

Adeiladwyd Ysgol Gynradd Eagleswell ddechrau'r 1970au ac roedd yn cynnwys ysgolion babanod ac iau ar wahân a unwyd yn 2000 ac a gysylltwyd yn ffisegol gan goridor wedi ei orchuddio. Mae'r adeiladau mewn cyflwr gweddol yn gyffredinol ac yn dioddef gollyngiadau niferus o'r to gwastad. Mae angen gwneud gwaith uwchraddio i'w system wresogi a'r toiledau ac mae ystafell ddosbarth ddwbl y gellir ei datgymalu yn cyrraedd diwedd ei hoes effeithiol. Mae'r ysgol wedi ei lleoli ar safle mawr sy'n mesur tua chwe erw. Mae gan yr ysgol nifer fawr o leoedd gwag.

### 2.3.2 Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr

Adeiladwyd prif adeilad Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr ddechrau'r 1950au gan Gwmni Awyrennau Bryste a oedd yn arallgyfeirio ar ôl yr Ail Ryfel Byd, ac mae ganddo fframiau a chladin alwminiwm. Oherwydd oedran a math yr adeilad, cynhelir archwiliadau strwythurol rheolaidd i roi rhybudd cynnar am unrhyw ddirywiad i'r adeilad. Mae'r ysgol hefyd yn cynnwys bloc meithrin a bloc dosbarth derbyn ar wahân ynghyd â dau adeilad y gellir eu datgymalu. Mae'r ystafell ddosbarth unigol y gellir ei

04846 - Llantwit Major Consult W:Layout 1 06/12/2013 14:34 Page 8





datgymalu a adeiladwyd oddeutu 2000 mewn cyflwr da. Mae'r adeilad arall y gellir ei ddatgymalu yn darparu tair ystafell ddosbarth rhyng-gysylltiedig ac mae mewn cyflwr gwael er i atgyweiriadau gael eu cyflawni gan yr ysgol. Hefyd, bydd angen adnewyddu to a bwyler gwresogi'r prif floc yn ystod y pum mlynedd nesaf.

Mae angen buddsoddiad sylweddol yn y ddwy ysgol i gynnal a gwella ffabrig eu hadeiladau. Mae angen disodli adeilad Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr yn y tymor canol ac mae angen uwchraddio Eagleswell. Mae lefelau is o arian cyfalaf wedi lleihau'r cyfleoedd i fynd i'r afael â phroblemau o ran cyflwr adeiladau'r ddwy ysgol. Ni fyddai'r math hwn o fuddsoddiad yn bodloni amcanion y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn llawn.

## 2.4 Gwybodaeth am yr ysgolion a'r disgyblion

**Gwybodaeth gyffredinol am ysgolion**

| Ysgol | Math o ysgol | Categori iaith | Nifer Derbyn ym mis Ion 2013 CYBLD* | Capasiti'r ysgol ym mis Ionawr 2013 CYBLD* | Nifer ar y gofrestr ym mis Ion 2013 CYBLD* | Ystod Oedran | Lleoedd meithrin rhan-amser cyfatebol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal Llanilltud Fawr** | | | | | | | |
| Ysgol Gynradd Eagleswell | Cynradd Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 30 | 210 | 169 | 4-11 | 52 |
| Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr | Cynradd Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 30 | 210 | 198 | 4-11 | 62 |
| Ysgol Gynradd Sant Illtud | Cynradd Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 54 | 379 | 331 | 4-11 | 76 |
| Ysgol Gymraeg Dewi Sant | Cynradd Cymunedol | Cyfrwng Saesneg | 30 | 30** | 15 | 4-7*** | 32 |

*Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
**Capasiti ysgol o 30 ar ddyddiad y CYBLD â dim ond dosbarth derbyn / blwyddyn 1 cymysg ar waith yn yr ysgol. Agorodd yr ysgol yn 2011 gyda dosbarth derbyn o 30 a fyddai'n cynyddu'n raddol o 30 bob blwyddyn ar gyfer grwpiau blwyddyn pellach
***Roedd yr ysgol yn cynnwys dosbarth meithrin hyd at 1 oed ar ddyddiad y CYBLD

**Gwybodaeth am y Niferoedd yng Nghofrestr yr Ysgol Gyfan**

| Ysgol | Capasiti yr Ysgol Ionawr 2013 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr Ionawr 2013 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr Ionawr 2012 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr Ionawr 2011 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr Ionawr 2010 CYBLD* | Nifer ar y Gofrestr Ionawr 2009 CYBLD* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ardal Llanilltud Fawr** | | | | | | |
| Ysgol Gynradd Eagleswell | 210 | 169 | 170 | 204 | 215 | 204 |
| Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr | 210 | 198 | 208 | 211 | 208 | 211 |
| Ysgol Gynradd Sant Illtud | 379 | 331 | 331 | 335 | 321 | 317 |
| Ysgol Gymraeg Dewi Sant | 30 | 15 | 3 | n/a | n/a | n/a |

*Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)

| Gwybodaeth am yr ysgol unedig | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Math o ysgol** | **Categori iaith** | **Nifer Derbyn - Ion 2016 CYBLD*** | **Capaciti'r ysgol - Ion 2016 CYBLD*** | **Nifer ar y gofrestr ym mis Ion 2016 CYBLD*** | **Ystod Oedran** | **Lleoedd meithrin rhan-amser cyfatebol** |
| **Ardal Llanilltud Fawr** | | | | | | | |
| Ysgol Unedig | Community Primary | Cyfrwng Saesneg | 60 | 420 | 370** | 4-11 | 96 |

*Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
**Data rhagamcanol yr ysgol

| Gwybodaeth am y Rhagolygon ar Gyfer Ysgolion | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Capasiti yr Ysgol*** | **Nifer ar y Gofrestr ar hyn o bryd Ionawr 2013 CYBLD*** | **Nifer ar y Gofrestr ar hyn o bryd Ionawr 2014 CYBLD*** | **Nifer ar y Gofrestr ar hyn o bryd Ionawr 2015 CYBLD*** | **Nifer ar y Gofrestr ar hyn o bryd Ionawr 2016 CYBLD*** | **Nifer ar y Gofrestr ar hyn o bryd Ionawr 2017 CYBLD*** | **Nifer ar y Gofrestr ar hyn o bryd Ionawr 2018 CYBLD*** |
| **Ardal Llanilltud Fawr** | | | | | | | |
| Ysgol Gynradd Eagleswell | 210 | 169 | 166 | 161 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr | 210 | 198 | 207 | 206 | 0 | 0 | 0 |
| Ysgol Gynradd Sant Illtud | 379 | 331 | 329 | 334 | 329 | 317 | 313 |
| Ysgol Gymraeg Dewi Sant | 30 | 15 | 31 | 51 | 76 | 106 | 136 |
| Ysgol Unedig | 0 | 0 | 0 | 0 | 370 | 361 | 362 |

*Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
Ychwanegwyd uned ystafell ddosbarth ddwbl at Ysgol Gymraeg Dewi Sant ym mis Awst 2013, gan gynyddu'r capasiti i 90. Bydd cynigion i ehangu'r ysgol i 210 lle erbyn mis Medi 2015 yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2013

## 2.5 y cynnig i greu ysgol gynradd 420 lle newydd yn rhan o gymuned ddysgu llanilltud trwy uno Ysgolion Cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr:

### OPSIYNAU A YSTYRIWYD

Ystyriwyd yr opsiynau canlynol cyn i'r Cabinet benderfynu ymgynghori ar y dewis a ffefrir sef uno ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr.

### Y sefyllfa bresennol – cadw'r ysgol ar eu ffurf bresennol

Er bod perfformiad a chanlyniadau cyffredinol yn ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr yn dda, mae adeiladau'r ysgol mewn cyflwr gwael ac mae angen eu disodli neu eu huwchraddio'n sylweddol yn y tymor canol. Mae'r lefel is o arian cyfalaf sydd ar gael ar hyn o bryd wedi lleihau'r cyfle o fynd i'r afael â'r problemau o ran cyflwr adeiladau'r ddwy ysgol.

Ni fyddai cadw'r sefyllfa bresennol yn diwallu anghenion y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn llawn.

04846 - Llantwit Major Consult W:Layout 1 06/12/2013 14:34 Page 10



# Cynigion am ysgol gynradd ar gyfer 420 o ddisgyblion

**Ailfodelu Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr, gwneud gwaith atgyweirio mawr i Ysgol Gynradd Eagleswell ac adeiladu Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr newydd ar y safle presennol**

Mae'r cynnig hwn yn cynnwys ailfodelu Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr, atgyweirio Ysgol Gynradd Eagleswell gan ddefnyddio cyllid adnewyddu asedau ac adeiladu Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr newydd ar y safle presennol yn rhan o gyllid Band B Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, y disgwylir iddo gychwyn yn 2020. Byddai hyn yn darparu adeilad 'ail ddewis' ar gyfer Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr. Nid oes unrhyw dderbyniad cyfalaf ar gael dan y cynllun hwn a cheir y perygl hefyd gyda'r opsiwn hwn y bydd adeilad Llanilltud Fawr yn methu cyn y bydd cyllid Band B ar gael yn 2020.

**Darparu Cynllun Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr well, cyflawni atgyweiriadau mawr i Ysgol Gynradd Eagleswell ac adeiladu Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr newydd ar y safle presennol**

Mae'r cynnig hwn ar gyfer Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr well gan gynnwys ailwampio'r prif floc a disodli gweddill y blociau gydag adeilad newydd. Byddai Ysgol Gynradd Eagleswell yn cael ei hatgyweirio gan ddefnyddio cyllid adnewyddu asedau a byddai adeilad newydd yn cael ei adeiladu ar gyfer Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr ar y safle presennol, yn rhan o gyllid Band B Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif y disgwylir iddo gychwyn yn 2020. Ni ystyrir bod y dewis hwn yn fforddiadwy gan y byddai costau ychwanegol y cynllun Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr well ac Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr newydd yn cael eu gwario heb dderbyniad cyfalaf yn deillio o werthu safle Eagleswell. Ceir perygl gyda'r opsiwn hwn hefyd y bydd adeilad Llanilltud Fawr yn methu cyn y bydd y cyllid Band B ar gael yn 2020.

**Adeiladu ysgol 420 lle ar safle Ysgol Gynradd Eagleswell i ddisodli ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr**

Rhoddwyd ystyriaeth i adeiladu ysgol 420 lle newydd ar safle Eagleswell i ddisodli adeiladau cyfredol yr ysgol a fyddai'n cael ei ariannu gan y derbyniad cyfalaf a gynhyrchir o werthu safle Llanilltud Fawr.

Datgelodd asesiad o'r opsiwn hwn na fyddai'r gwerth amcanestynedig y tir yn ddigon i dalu cost y cynllun. Hefyd, ni fyddai arbedion ehangach y gellid eu sicrhau trwy Gymuned Ddysgu Llanilltud o ganlyniad i rannu safle a rheoli cyfleusterau cydgysylltiedig yn cael eu gwireddu. Byddai adeilad 'ail ddewis' ar gyfer Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr.

**Darparu Cymuned Ddysgu Llanilltud gan ailddatblygu Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr yn llawn ac adeiladu ysgol 420 lle newydd ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr/Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr**

Yr opsiwn a ffefrir yw uno ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr ac adeiladu adeilad 420 lle newydd ar gyfer yr ysgol newydd ar safleoedd presennol Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr/Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr yn rhan o Gymuned Ddysgu Llanilltud. Byddai'r

ddarpariaeth o ysgol gynradd newydd yn rhan o'r cynllun ehangach yn cynnwys yr ysgol gyfun ac yn cael ei osod fel un contract.

Bydd yr opsiwn hwn yn rhan o Gymuned Ddysgu Llanilltud yn galluogi'r ysgolion a'r gymuned i elwa o amrywiaeth eang o gyfleusterau newydd. Bydd y disgyblion yn cael eu haddysgu mewn adeiladau modern o ansawdd uchel. Bydd yr amgylchedd dysgu gwell yn cefnogi gweithrediad llwyddiannus strategaethau ar gyfer gwella ysgolion a chanlyniadau addysgol gwell.

Byddai uno'r ddwy ysgol yn sicrhau arbedion refeniw o tua £210,000 y flwyddyn oherwydd arbedion yn deillio o arbedion maint. Byddai arbedion net yn cael eu hail-fuddsoddi mewn addysg gan sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl i sicrhau canlyniadau gwell i'r holl blant a phobl ifanc ym Mro Morgannwg.

Byddai Cymuned Ddysgu Llanilltud yn elwa o gyfleusterau a rennir a byddai arbedion pellach yn cael eu sicrhau trwy reoli cyfleusterau cydgysylltiedig. Byddai'r ysgol gynradd newydd hon yn ysgol dau ddosbarth derbyn â dosbarth meithrin yn ôl cynllun llyfr patrwm (a ddisgrifir yn fanwl yn ddiweddarach) am gost amcanestynedig o £4.75 miliwn. Byddai safle Eagleswell yn cael ei werthu i ariannu'r gwaith o adeiladu'r ysgol newydd.

Byddai uno'n cynnig cyfleusterau addysg o ansawdd gwell i ddisgyblion. Byddai'r Gymuned Ddysgu yn elwa o gyfleusterau a rennir fel cae chwaraeon pob tywydd artiffisial a byddai arbedion pellach yn cael eu sicrhau trwy reoli cyfleusterau cydgysylltiedig.

## CYLLID

Bydd cyllid ar gyfer ailfodelu Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr ac adeilad newydd Ysgol Gymraeg Dewi Sant ar gael trwy raglen gyfalaf y Cyngor a rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Bydd angen derbyniadau cyfalaf o werthu safle Ysgol Gynradd Eagleswell i adeiladu'r ysgol gynradd unedig newydd.

Bydd yr ysgol gynradd 420 lle newydd yn gynllun llyfr patrwm sy'n defnyddio cynllun ysgol sydd wedi bod yn effeithiol yn y gorffennol ac a adeiladwyd o'r blaen gan y contractwr yn rhan o brosiectau adeiladu ysgolion newydd eraill. Mae hyn yn cynnig y manteision o leihau cost yr ysgol newydd a lleihau faint o amser y bydd yr ysgol yn ei gymryd i'w hadeiladu.

Bydd yn rhaid gwerthu safle presennol Ysgol Gynradd Eagleswell i ddarparu'r cyllid sydd ei angen ar gyfer yr ysgol newydd.





04846 - Llantwit Major Consult W:Layout 1 06/12/2013 14:35 Page 12



# Cynigion am ysgol gynradd ar gyfer 420 o ddisgyblion

## 2.6 Ysgolion a allai gael eu heffeithio gan y cynigion

Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ysgolion eraill yn yr ardal leol. Mae'r uno yn darparu ar gyfer plant sydd eisoes wedi eu cofrestru yn y ddwy ysgol gynradd bresennol, a fyddai'n trosglwyddo'n naturiol i'r ysgol unedig pan fydd yn agor yn yr adeiladau presennol a phan fydd yn symud i'r adeilad newydd.

Byddai nifer y lleoedd meithrin a chynradd yn yr ysgol unedig yn cyfateb i'r lleoedd sydd ar gael yn ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr ar hyn o bryd, ac felly nid yw cyfanswm y lleoedd meithrin a chynradd sydd ar gael i blant yn ardal Llanilltud Fawr yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Mae'n bosibl y gallai darparu adeilad ysgol newydd ddenu rhai rhieni oddi wrth wneud cais i ysgolion eraill. Nid yw cyfanswm y lleoedd ysgol sydd ar gael yn Llanilltud yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn; bydd dewis rhieni o ysgolion yn cael ei reoli trwy broses derbyniadau i ysgolion y Cyngor fel y mae ar hyn o bryd.

Os caiff ei chymeradwyo, bydd yr ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ar safle cyfunol presennol Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr ac Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr. Bydd union leoliad adeilad yr ysgol gynradd unedig newydd yn cael ei gytuno yn dilyn trafodaethau gyda'r holl ysgolion ar y safle. Bydd adeiladu'r adeilad newydd a dymchwel Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr yn effeithio ar yr ysgolion presennol oherwydd y broses adeiladu a'r adleoli i'r ysgol newydd. Mae'r Cyngor yn brofiadol iawn o ran cyflawni prosiectau adeiladu mawr ar safleoedd ysgol yn ystod tymor yr ysgol. Byddai'r gwaith adeiladu'n cael ei wahanu'n ddiogel o'r ysgolion heb unrhyw fynediad i blant nac aelodau staff. Bydd llwybrau mynediad i adeiladwyr yn cael eu cadw i ffwrdd o'r ysgolion a bydd danfoniadau ar gyfer yr adeilad newydd yn osgoi amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol. Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phob ysgol ar y safle i sicrhau bod cyn lleied o ymyrraeth â phosibl. Bydd plant o ysgolion cynradd unedig Llanilltud Fawr ac Eagleswell yn cael eu symud i'r ysgol newydd yn ystod gwyliau'r ysgol i sicrhau cyn lleied o ymyrraeth â phosibl.

Gallai adeiladu ysgol gynradd unedig newydd leihau nifer y ceisiadau am leoedd yn Ysgol Gynradd Sant Illtud trwy ddenu rhieni i wneud cais am le yn yr ysgol newydd. Fodd bynnag, rhwng 8 Tachwedd ac 20 Rhagfyr 2013, mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y Cynllun Datblygu Lleol wedi'i Adneuo sy'n nodi pedwar safle tai posibl yn ardal Llanilltud Fawr a fyddai'n creu cyfanswm o 665 o gartrefi. Disgwylir i blant ychwanegol sy'n byw ar y datblygiadau tai hyn wneud ceisiadau am leoedd mewn ysgolion lleol a fydd yn cynyddu'r galw am leoedd mewn ysgolion yn yr ardal.

## 2.7 Trefniadau derbyn a dalgylchoedd

Y cyngor yw'r awdurdod derbyn ar gyfer yr ysgolion. Ni fydd trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol unedig yn newid o ganlyniad i'r cynnig hwn. Bydd yr holl ddisgyblion yn y ddwy ysgol yn cael lle yn yr ysgol unedig. Dalgylchoedd cyfredol ysgolion Eagleswell a Llanilltud Fawr fyddai dalgylch yr ysgol unedig.

**Gweler mapiau o'r dalgylchoedd ar dudalen 18**

## 2.8 Trefniadau teithio dysgwyr

Mae Trefniadau Teithio Dysgwyr Cymru Gyfan yn darparu cymhwysedd ar gyfer cludiant i'r ysgol os bydd disgybl oedran cynradd yn byw mwy na dwy filltir i ffwrdd o'i ysgol ddalgylch agosaf neu neilltuedig. Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn newid trefniadau, cymhwysedd na hygyrchedd cludiant i'r ysgol.

## 2.9 Materion staffio

Bydd y Cyngor yn cefnogi llywodraethwyr ac aelodau staff y ddwy ysgol gyda'r broses uno, mewn ymgynghoriad â chynrychiolwyr undebau llafur. Ceir nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith fel Protocolau ar Uno Ysgolion a Pholisi Dileu Swyddi sy'n cynnwys cynllun rhyddhau cynnar gwirfoddol i gynorthwyo yn y broses hon. Bydd y polisïau hyn yn sicrhau y bydd cyfathrebu rheolaidd ac eglur bob amser.

## 2.10 Materion Addysgol

Ystyrir bod yr uno arfaethedig yn cynnig y manteision addysgol canlynol i blant ac aelodau staff yn yr ysgol:

- Mwy o gyfleoedd i ddatblygu'r cwricwlwm mewn ysgol fwy. Bydd gweithlu mwy yn arwain at brofiadau cwricwlwm mwy cyfoethog oherwydd amrywiaeth ehangach o sgiliau'r gweithlu.
- Byddai gweithredu dwy ysgol fel un endid â chyfleusterau cymunedol yn galluogi'r ysgol a'r gymuned i rannu defnydd o'r adeiladau gan sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio a'u llenwi cymaint â phosibl gan gynnig y gwerth gorau am arian.
- Cyfle i'r ysgol unedig newydd gynllunio'r llety i'w ddarparu yn yr adeilad newydd.
- Byddai'r adeilad ysgol newydd yn cynnig lleoedd ysgol o ansawdd uchel i wasanaethu'r ardal leol.
- Bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion gan gynnig mwy o le ac amrywiaeth eang o adnoddau, mwy o gyfranogiad a mwynhad o ddysgu oherwydd amgylchedd newydd.
- Byddai uno yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, byddai darpariaeth ar gyfer sgiliau a llythrennedd yn parhau i ddatblygu.
- Mae mwy o aelodau staff ar un safle yn caniatáu i gyfrifoldeb gael ei rannu'n ehangach gan rannu'r llwyth gwaith a chynnig mwy o gyfleoedd i rannu arfer da.
- Mae ysgol dau ddosbarth derbyn yn hwyluso addysgu tîm ac yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer Datblygiad Proffesiynol Parhaus i aelodau staff.
- Mwy o gyfle i aelodau staff ddatblygu ar hyd y llwybr gyrfaol y maent yn ei ddewis.

04846 - Llantwit Major Consult W:Layout 1 06/12/2013 14:35 Page 14



# Cynigion am ysgol gynradd ar gyfer 420 o ddisgyblion

Fodd bynnag, cydnabyddir hefyd bod nifer o anfanteision neu risgiau posibl y bydd yn rhaid i'r ysgol a'r Cyngor eu rheoli er mwyn osgoi unrhyw effaith andwyol:

- Gellid colli'r ethos ysgol fach.
- Gallai'r ailstrwythuro amharu ar y gwaith o reoli aelodau staff ac adnoddau
- Tagfeydd traffig posibl o gwmpas safle'r ysgol pan fydd yn amser danfon/casglu'r plant. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda chorff llywodraethu'r ysgol newydd arfaethedig i ddatblygu cynllun teithio er mwyn sicrhau bod cyn lleied o ymyrraeth â phosibl. Os caiff y cynllun ei gymeradwyo, byddai gwelliannau mynediad a pharcio yn cael eu darparu yn rhan ohono.
- Dan y cynnig cyfredol, bydd adeiladu'r adeilad ysgol newydd yn dibynnu ar werthu safle Ysgol Eagleswell.

Mae gwybodaeth am adroddiadau arolygu Estyn diweddar yr ysgolion ar gael ar y tudalennau gwe canlynol:

Dolen i arolygiad diweddaraf Estyn o Ysgol Gynradd Eagleswell:
http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6732180

Dolen i arolygiad diweddaraf Estyn o Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr:
http://www.estyn.gov.uk/english/provider/6732142

## 2.11 Asesiad effaith ar y gymuned

Mae angen creu Cymuned Ddysgu Llanilltud i gynnwys uno ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud er mwyn gwella addysg yn yr ardal heb effeithio'n andwyol ar y gymuned.

Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn ceisio osgoi unrhyw effaith andwyol ar y gymuned leol oherwydd yr uno. Cydnabyddir y gallai adeiladu ysgol newydd gynyddu traffig yn yr ysgol gan arwain at dagfeydd traffig posibl o gwmpas safle'r ysgol ar amseroedd danfon/casglu'r plant. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda chorff llywodraethu'r ysgol newydd arfaethedig i ddatblygu cynllun teithio i sicrhau cyn lleied o ymyrraeth â phosibl. Pe bai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo, byddai gwelliannau i fynediad a pharcio yn cael eu darparu'n rhan ohono, er mwyn sicrhau cyn lleied o effaith â phosibl ar yr ardal leol.

Ar hyn o bryd, mae'r ddwy ysgol yn cynnig nifer o weithgareddau a chyrsiau i rieni yn ystod y diwrnod ysgol trwy brosiect teuluoedd yn gyntaf, a hefyd yn cynnig clybiau a gweithgareddau ar ôl yr ysgol i blant y tu allan i oriau'r ysgol. Mae'r ysgolion hefyd yn rhedeg dosbarthiadau i'r gymuned y tu allan i oriau arferol yr ysgol. Cynigir y bydd yr holl gyfleusterau presennol sydd ar gael i blant, y gymuned a rhieni yn parhau pan fydd yr ysgolion yn uno.

## 2.12 Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb

Mae Asesiad cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb o ran y cynnig hwn yn dod i'r casgliad na fyddai uno ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr yn effeithio'n andwyol ar unrhyw grŵp penodol mewn cymdeithas. Bydd yr asesiad yn cael ei adolygu yn dilyn ymgynghoriad. Pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, byddai asesiadau pellach o'r effaith ar gydraddoldeb yn cael eu cynnal gan gynnwys asesiad ar gynllun adeilad yr ysgol gynradd newydd.

## 2.13 Materion cynaliadwyedd

Bydd adeiladau newydd y cynllun yn bodloni gradd ragorol BREEAM gan leihau'n sylweddol costau rhedeg ac allyriadau carbon sy'n deillio o'r adeilad. BREEAM (Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu) yw dull mwyaf sefydledig a mwyaf cyffredin y byd o asesu, graddio ac ardystio cynaliadwyedd adeiladau. Byddai'r gymuned yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu Cymuned Ddysgu Llanilltud a darparu cyfleusterau cymunedol.

## 3.0 Amserlen y broses statudol

Er mwyn uno ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr, mae'n rhaid i'r Cyngor ddilyn y broses a nodir yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2013.

| Proses Statudol | Amserlen |
|---|---|
| Cyhoeddi dogfen ymgynghori i bartïon y mae ganddynt ddiddordeb ac ymgyngoreion rhagnodedig | 16 Rhagfyr 2013 |
| Y dyddiad cau er mwyn cyflwyno safbwyntiau am y cynnig | 10 Chwefror 2014 |
| Cyflwyno'r adroddiad ymgynghori i'r Cabinet a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor | 24 Mawrth 2014 |
| Cyhoeddi hysbysiad statudol am 28 diwrnod, ac yn ystod y cyfnod hwn, gwahoddir gwrthwynebiadau ysgrifenedig | 28 Ebrill tan 23 Mai 2014 |
| Penderfyniad gan gabinet y Cyngor | 23 Mehefin 2014 |
| Adroddiad gwrthwynebu yn cael ei gyhoeddi cyn pen saith diwrnod o'r penderfyniad ar wefan y Cyngor a hysbysiad o benderfyniad y cabinet. | 30 Mehefin 2014 |
| Agor yr ysgol wedi'i hehangu | Medi 2015 |

04846 - Llantwit Major Consult W:Layout 1 06/12/2013 14:35 Page 16



# Cynigion am ysgol gynradd ar gyfer 420 o ddisgyblion

## 3.1 Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar y cynnig hwn yn cychwyn ar 16 Rhagfyr 2013 ac yn dod i ben ar 10 Chwefror 2014. Mae'r cyfnod ymgynghori hwn yn hwy na'r arfer i ganiatáu pythefnos ychwanegol ar gyfer gwyliau Nadolig yr ysgol. Gweler adran 1.1 am ragor o fanylion ar sut i ymateb, mynychu sesiynau galw heibio a mynegi eich barn.

## 3.2 Ystyried eich safbwyntiau

O fewn 13 wythnos i 10 Chwefror 2014, bydd adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bro Morgannwg. Bydd copïau caled o'r adroddiad ar gael ar gais hefyd. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion a godwyd gan yr ymgyngoreion ac yn darparu ymateb y Cyngor i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys safbwynt Estyn ar y cynnig.

Bydd y Cabinet yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r cynnig ai peidio.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r cynnig, yna mae'n rhaid i Gyngor Bro Morgannwg gyhoeddi hysbysiad statudol.

## 3.3 Hysbysiad statudol

Bydd yr hysbysiad statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Bro Morgannwg ac yn cael ei bostio ym mhob ysgol yn yr ardal. Bydd copïau o'r hysbysiad yn cael eu gwneud ar gael i ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (efallai y bydd yr ysgol yn dosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost hefyd). Bydd yr hysbysiad yn nodi manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu i wneud hynny yn ysgrifenedig o fewn y cyfnod a nodir.

## 3.4 Gwneud penderfyniad am y cynnig

Bydd y Cabinet yn gwneud penderfyniad am y cynnig. Gallai'r Cabinet benderfynu cymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo'r cynnig gydag addasiadau. Trwy wneud hynny, bydd y Cabinet yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a gafwyd.

## 3.5 Hysbysiad o'r penderfyniad

Ar ôl gwneud penderfyniad am y cynigion, hysbysir yr holl bartïon y mae ganddynt ddiddordeb, a byddant yn cael gwybod bod y penderfyniad ar gael, ac fe'i cyhoeddir mewn ffordd electronig ar wefan y Cyngor.

## Cwestiynau Cyffredin

**Beth fyddai'r cynnig yn ei olygu i blant sy'n mynychu ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr ar hyn o bryd? A fydd fy mhlentyn yn cael cynnig lle yn yr ysgol unedig?**

Bydd yr holl blant sy'n mynychu ysgolion cynradd Eagleswell neu Llanilltud Fawr ar hyn o bryd yn sicr o'u lle yn yr ysgol unedig.

**A fydd fy mhlentyn ar aros gyda'r disgyblion yn ei ddosbarth a chyda'i athrawon dosbarth cyfredol?**

Byddai'r plant yn trosglwyddo i'r ysgol unedig gyda'r disgyblion yn eu dosbarth a llawer o athrawon dosbarth, gan gynnig cymaint o barhad â phosibl.

**A fydd rhaid i'r plant deithio rhwng safleoedd?**

Ni fwriedir i'r plant deithio rhwng safleoedd ysgolion.

**Beth fydd y dalgylch lleol os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen?**

Byddai dalgylch yr ysgol unedig yn cynnwys dalgylchoedd presennol ysgolion cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr.

**Beth fydd y wisg ysgol?**

Byddai Corff Llywodraethu newydd yr ysgol yn penderfynu ar wisg ar gyfer yr ysgol.

**A fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith ar draffig yn yr ardal leol?**

Mae'n bosibl y bydd tagfeydd traffig o gwmpas safle'r ysgol ar amseroedd danfon/casglu'r plant. Fodd bynnag, byddai'r cyngor yn gweithio gyda chorff llywodraethu'r ysgol newydd arfaethedig i ddatblygu cynllun teithio i sicrhau bod cyn lleied o ymyrraeth â phosibl. Pe bai'r cynllun yn cael ei gymeradwyo, byddai gwelliannau mynediad a pharcio yn cael eu darparu'n rhan ohono.

Ni ddylai fod fawr o effaith gan fod yr ysgol o fewn pellter cerdded rhwydd i'r rhai sy'n byw yn yr ardal leol ac a fyddai'n trosglwyddo i'r ysgol. Bydd amseroedd cychwyn a gorffen yr ysgolion ar Ham Lane East yn parhau i fod yn wahanol er mwyn lleihau traffig yn yr ardal.

Bydd goblygiadau traffig a chludiant yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad cludiant sy'n ofynnol er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith adeiladu pen bai'r cynnig yn cael ei roi ar waith.


**Pryd fyddai'r gwaith adeiladu'n cychwyn?**


Mae'n anodd dweud pryd yn union fyddai'r gwaith adeiladu yn cychwyn gan ei bod yn dibynnu ar werthu safle Eagleswell, ond gallai gwaith adeiladu gychwyn ym mis Awst 2016.

04846 - Llantwit Major Consult W:Layout 1 06/12/2013 14:35 Page 18



# Cynigion am ysgol gynradd ar gyfer 420 o ddisgyblion















# Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

## Ymgynghoriad ar y cynnig i greu ysgol gynradd 420 lle newydd yn rhan o Gymuned Ddysgu Llanilltud trwy uno Ysgolion Cynradd Eagleswell a Llanilltud Fawr

**Rhowch eich enw a'ch cyfeiriad. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon er mwyn sicrhau bod atebwyr yn cael gwybod y canlyniadau a'r camau nesaf yn y broses ymgynghori. Bydd hefyd yn rhoi gwell amcan o gyrhaeddiad yr ymgynghoriad.**

**Enw** ______________________

**Cyfeiriad** ______________________

______________________

**Côd Post** ______________

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Anfonwch y ffurflen hon yn ôl i: Cymuned Ddysgu Llanilltud,
Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid, Cyngor Bro Morgannwg, RHADBOST SWC2936 Y Barri CF63 4GZ

04846 - Llantwit Major Consult W:Layout 1 06/12/2013 14:35 Page 20



# Cynigion am ysgol gynradd ar gyfer 420 o ddisgyblion

Ymgynghoriad ar y cynnig i greu ysgol gynradd 420 lle newydd yn rhan o gymuned ddysgu llanilltud trwy uno ysgolion cynradd eagleswell a llanilltud fawr

**Eich Sylwadau**

**Ticiwch y bocs os hoffech gael eich hysbysu o'r ffaith bod yr adroddiad ymgynghori yn cael ei gyhoeddi** ◯

**Sylwer:** Mae'r dudalen hon at ddibenion ymgynghori yn unig. Ystyrir yr holl sylwadau o fewn y broses ymgynghori, fodd bynnag, ni roddir ymatebion unigol.

A fyddech gystal â dychwelyd y ffurflen hon at:
Llantwit Learning Community,
Gwasanaethau Cwsmeriaid a Chorfforaethol,
Cyngor Bro Morgannwg, RHADPOST SWC2936, Y Barri CF63 4GZ

Neu, mae modd i chi lenwi fersiwn ar-lein trwy droi at
**www.valeofglamorgan.gov.uk/llantwitlearningcommunity**

Neu mae modd i chi anfon eich safbwyntiau mewn neges e-bost at
**llantwitlearningcommunity@valeofglamorgan.gov.uk**